# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 2

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

## PENNOD 1

COFRESTRU DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

*Amodau cofrestru*

### 28 Amodau cofrestru parhaus cyffredinol

(1) Rhaid i'r Comisiwn benderfynu amodau cofrestru parhaus cyffredinol a'u cyhoeddi.

(2) Caniateir i amodau gwahanol gael eu penderfynu ar gyfer categorïau cofrestru gwahanol.

(3) Mewn perthynas â chategori cofrestru, caniateir i amodau gwahanol gael eu penderfynu ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddarparwr addysg drydyddol.

(4) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol mewn ffordd sy'n nodi'r categori cofrestru y mae'r amod yn gymwys iddo.

(5) Caiff y Comisiwn ddiwygio'r amodau.

(6) Os yw'r Comisiwn yn diwygio'r amodau, rhaid iddo gyhoeddi'r amodau fel y'u diwygiwyd.

(7) Cyn penderfynu'r amodau neu eu diwygio, rhaid i'r Comisiwn, os yw'n ymddangos iddo ei bod yn briodol gwneud hynny, ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 28. (See end of Document for details)*

(8) Caiff y Comisiwn, ar adeg cofrestru darparwr addysg drydyddol mewn categori o'r gofrestr neu'n ddiweddarach, benderfynu nad yw unrhyw un neu ragor o'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol sy'n gymwys i gofrestriad yn y categori hwnnw yn gymwys i'r darparwr, yn ddarostyngedig i'r gofynion o dan y Rhan hon sy'n ymwneud ag amodau cofrestru parhaus mandadol.

(9) Pan fo'r penderfyniad wedi ei wneud ar ôl cofrestru'r darparwr addysg drydyddol yn y categori hwnnw o'r gofrestr, rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu'r darparwr am ei benderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**I2** A. 28(1)-(3) mewn grym ar 4.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2023/919, **ergl. 3(r)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 28.